

## Rysáit Dŵr Gwastraff 2

Pan fyddwch yn tynnu dŵr y toiled mae'r dŵr budr (a elwir yn ddŵr gwastraff) yn llifo ar hyd pibellau o'r enw carthffosydd i un o Weithfeydd Trin Dŵr Gwastraff Dŵr Cymru lle caiff ei drin. Mae ein carthffosydd yn ddigon hir i gyrraedd o Gymru i Awstralia ac yn ôl!

Ydych chi'n cofio gwneud dŵr gwastraff? Pa bethau wnaethom ni eu rhoi ynddo? Gwnewch restr ohonynt. Hefyd, gallwch ychwanegu unrhyw beth arall y gallech ddod o hyd iddo mewn carthffosydd, wedi dod o ddraeniau, sinciau neu doiledau. Ych-a-fi!

Dŵr glaw, pysgod aur wedi marw, powdwr golchi ...

Defnyddiwch y patrwm isod i ysgrifennu'ch Rysáit Dŵr Gwastraff eich hunan.

### Rysáit Dŵr Gwastraff

#### Cynhwysion

- 
- 
- 
- 
- 
- 
- 

Cofiwch ddefnyddio priflythrennau!

Defnyddiwch bwyntiau bwled i restru'ch cynhwysion.



Dywedwch wrtha i faint i'w gynnwys gan ddefnyddio mesuriadau diddorol! e.e. Llund cwpan o faw hwyaden 4 llond llwy de o dywod.

Defnyddiwch rif ar gyfer pob un o'r cyfarwyddiadau.

Dechreuwch bob brawddeg â berf orchmynnol e.e. rhowch, arllwyswch, cymysgwch.



Defnyddiwch gysyllteiriau amser. e.e. nesaf, wedyn, hefyd. Defnyddiwch adferfau .e. yn ofalus, yn gyflym.

Cofiwch briflythrennau, comas ac atalnodau llawn! Allech chi ddefnyddio cromfachau i roi rhagor o wybodaeth?

#### Dull

- 1.
- 2.
- 3.
- 4.
- 5.

Defnyddiwch yr isod i'w wneud yn fwy diddorol:- Cyflythreniad – dom du dafad. Onomatopeia – plop, sblash. Geiriau waw – microsgopig